

Gweithgareddau Ailgylchu'r Tîm Eco

- Gofynnwch i'ch tîm eco ysgrifennu a chyflwyno cyfarfod boreol yn trafod ailgylchu eitemau plastig o'r ystafell ymolchi neu blastig o amgylch y tŷ.
- Gosodwch her i'ch disgyblion i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu (www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1) er mwyn darganfod pa eitemau plastig maen nhw'n gallu eu hailgylchu gartref, yn lleol ac yn eu canolfan ailgylchu gwastraff cartref agosaf.
- Gwnewch arddangosiad o luniau ac eitemau sydd wedi'u gwneud o blastigion wedi'u hailgylchu.
- Gofynnwch i'ch tîm eco gael y dosbarth neu'r ysgol gyfan i fesur faint o wastraff bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu gartref mewn wythnos, ac ystyried faint fyddai hyn mewn mis ac mewn blwyddyn. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu (www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1) i ddarganfod os gellir casglu gwastraff bwyd yn eu hardal leol. Os gallan nhw ailgylchu gartref, gofynnwch iddyn nhw greu poster i'w roi yn eu cegin i atgoffa pawb yn y tŷ i ailgylchu eu holl wastraff bwyd.
- Gofynnwch i'ch tîm eco baratoi gwasanaeth boreol yn egluro pam mae ailgylchu bwyd yn beth da fel modd i lansio cystadleuaeth am y poster ailgylchu bwyd yn y cartref gorau (dylai'r poster hyrwyddo'r Lleolydd Ailgylchu hefyd). Fe gânt fynd â'u posteri adref a'u harddangos yn eu ceginau ar ôl y gystadleuaeth.
- Sefydlwch dîm Wastebuster a'u grymuso i sicrhau nad oes eitemau anghywir yn y biniau ailgylchu yn y dosbarth. Sefydlwch rota ar gyfer gwagio manau ailgylchu a sicrhau fod unrhyw eitemau a gesglir ar gyfer eu dychwelyd, fel cartonau llefrith, yn cael eu rhoi yn y biniau cywir ac yn barod i'w casglu. Dylai'r tîm fedru dyfarnu perfformiad gorau'r wythnos a rhoi amser chwarae ychwanegol neu gymhelliad da arall i'r dosbarth buddugol. Cynhaliwch adroddiad ailgylchu dosbarth rheolaidd yn eich cyfarfodydd boreol a dathlwch y dosbarth sy'n perfformio orau.
- Chwaraewch gêm gofio. Gofynnwch i'r plant fynd i'r Lleolydd Ailgylchu (www.recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1) i ddarganfod beth y gellir ei ailgylchu'n lleol a phrofi faint y gallan nhw ei gofio.
- Os yw'ch ysgol wedi derbyn dyfarniad Eco-Ysgolion neu achrediad arall am ailgylchu da, dathlwch eich llwyddiant drwy ddweud wrth eraill, fel rhieni a'r wasg leol, er mwyn hyrwyddo cod eco/moeseg eich ysgol.
- Gwahoddwch eich tîm eco i greu cwis i'r dosbarth am ailgylchu [plastig, bwyd, cartonau, trydanol, metel neu bapur a chardfwrdd].
- Gallai'ch tîm eco baratoi cyfarfod boreol am ailgylchu [plastig, bwyd, cartonau, trydanol, metel neu bapur a chardfwrdd] a chreu cwis fel prawf i'r ysgol am y ffeithiau maen nhw'n eu cofio o'r cyfarfod boreol.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



- Gwahoddwch eich fîm eco i ysgrifennu drama am ailgylchu [plastig, bwyd, cartonau, trydanol, metel neu bapur a chardfwrdd] a fydd yn annog rhagor o bobl i ailgylchu mwy. Gallwch ei ffilmio ar ffôn clyfar a'i dangos i'r ysgol pan fyddwch yn cynnal wythnos eco.
- Defnyddiwch wastraff papur i greu gludwaith mawr trawiadol ar thema 'ailgylchu papur i warchod y blaned' a rhoi teitl priodol iddo. Rhowch hwn mewn man lle bydd rhieni'n debygol o'i weld.
- Gofynnwch i'ch fîm eco i sicrhau fod gan bob ystafell ddsbarth (a swyddfa) finiau aildefnyddio ac ailgylchu papur.
- Gwahoddwch eich fîm eco i greu pypedau bys o gymeriadau Wastebuster (taflenni gweithgaredd ar gael i'w lawrlwytho o www.resources.wastebuster.co.uk) ac ysgrifennu drama y gallwch ei ffilmio ar ffôn clyfar a'i dangos i'r ysgol mewn cyfarfod boreol.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales

